TRWYDDEDAU GYRWYR HURIO PREIFAT/CERBYDAU HACNAI

POB DIM SYDD ANGEN I CHI EI WYBOD AM DDOD YN YRRWR CERBYD HURIO PREIFAT/HACNAI YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

I ddod yn yrrwr, bydd raid i chi gael trwydded gan y Cyngor. Cyhoeddir y drwydded dan ddeddf seneddol o'r enw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyfeirir ati fel TRWYDDED GYRRWR. I gael trwydded gyrrwr, rhaid i'r Cyngor benderfynu a ydych yn "unigolyn addas a phriodol" dan delerau'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys cyfres o brofion a gwiriadau gyda chyrff amrywiol er mwyn i'r Cyngor benderfynu ar eich cais mewn ffordd deg a chyson.

Gallwch gael ffurflenni cais gan y Depo Cludiant, Ffordd yr Abaty, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, LL13 9PW.

Mae'r weithdrefn ymgeisio fel a ganlyn:

I ymgeisio am drwydded gyrrwr hurio preifat, mae'r canlynol yn hanfodol:

1. Byddwch yn 18 oed o leiaf ac wedi dal trwydded yrru Brydeinig neu Ewropeaidd lawn ers o leiaf blwyddyn.

2. Cwblhewch y ffurflen gais briodol a ffurflen wirio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT). Rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig ddarparu tystiolaeth o wiriadau cofnodion troseddol o'u gwlad gwreiddiol neu'r wlad lle roeddent yn byw ynddi cynt.

3. Archwiliad meddygol grŵp 2 gan feddyg o'ch dewis. Chi fydd yn talu am hyn. Dylech wneud hyn pan fyddwch wedi derbyn cadarnhad gan yr Adran fod eich cais wedi ei gymeradwyo. Nodir- Na fydd ymgeiswyr gydag epilepsi neu colled eu golwg o fewn un llygad yn medru ateb safon Meddygaeth Grwp 2. Rhaid i berson ddiabeteg insiwlin ateb amodau cymhwyso y DVLA.

4. Bwriad y prawf gwybodaeth yw cadarnhau eich bod yn adnabod yr ardal yn dda, yr amodau gwaith a amlinellwyd gan y Cyngor, rheoliadau traffig a'ch bod yn meddu ar y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg. Bydd y prawf yn para rhyw hanner awr a bydd yn cynnwys 30 cwestiwn. Rhaid i chi ateb 25 yn gywir er mwyn llwyddo. Fodd bynnag, i'ch cynorthwyo, byddwch yn cael peth gwybodaeth ymlaen llaw.

   Os byddwch yn methu, gallwch ymgeisio unwaith eto ar ôl talu'r ffi. Os nad y Saesneg mo'ch iaith gyntaf, mae Coleg Iâl, Wrecsam yn cynnal cyrsiau Saesneg a gall y rhain eich helpu i baratoi am ail brawf. Y rhif ffôn yw 01978 311794.

BETH SY'N DIGWYDD YN DILYN Y GWIRIADAU A'R PROFION?

Tra bod y gwiriadau'n cael eu gwneud gan y Swyddfa Drwyddedu, bydd y Cyngor yn penderfynu ar eich cais ac yn gwneud unrhyw ymholiadau gofynnol. Os bydd angen mwy o wybodaeth er mwyn cwblhau eich cais, byddwch yn cael gwybod. Os bydd wedi ei gwblhau'n foddhaol, byddwch yn cael eich trwydded gyrrwr a'ch bathodyn gyrrwr cerbyd hacnai/hurio preifat, fel arfer ar ddiwrnod y prawf gwybodaeth.

Ac eithrio cwblhau'r ffurflen gais, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol:
• Trwydded yrru gyfredl (lawn ers lleifaswm o 12 mis a chyfeiriad cyfredol arni). Rhaid dangos y darn llun a'r darn papur.
• Dau lun lliw maint pasport
• Ffurflen feddygol grŵp 2 wedi ei chwblhau, ei stampio a'i llofnodi
• Y ffi briodol

Wrth gyflwyno'r ffurflen SCT, bydd gofyn i chi ddangos y dogfennau canlynol ar y diwrnod:
• Pasport cyfredol
• Trwydded yrru lawn a chyfredol
• Tystysgrif geni
• Tystiolaeth o ble rydych yn byw (bil trydan, ayb)

Anelwn at ddelio â'ch cais cyn gynted â phosibl ond gan ein bod yn dibynnu ar fudiadau eraill i ddarparu gwybodaeth i ni, gall y broses gymryd mwy o amser na'r disgwyl ar adegau. Ac eithrio amgylchiadau arbennig, ceisiwn benderfynu ar bob cais o fewn chwe wythnos o dderbyn y cais. Fodd bynnag, sylwer na fydd cais yn cael ei dderbyn hyd nes i ni dderbyn yr holl waith papur perthnasol a'r ffi SCT.

Unwaith i chi dderbyn eich bathodyn, gallwch yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacnai ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam (yn dibynnu ar ba brawf a lwyddoch). Rhaid i'r cerbydau hyn fod wedi eu trwyddedu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er nid oes raid i chi fod yn berchen ar y cerbyd. Ar y cyd â'ch bathodyn, byddwch yn derbyn trwydded bapur y bydd unrhyw weithredwr rydych yn gweithio gydag ef am ei gweld. Bydd eich bathodyn cyntaf yn para rhyw 12 mis a gallwch ei adnewyddu'n flynyddol ar ôl talu ffi. Byddwch yn cael eich atgoffa o hyn ryw bedair wythnos cyn iddo ddod i ben. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai CHI sy'n gyfrifol am sicrhau yr adnewyddir eich bathodyn mewn pryd.

Ni dderbyniwn gais i adnewyddu trwydded fwy na fis calendr yn dilyn trwydded yn dod i ben.

Ymdrinnir ag unrhyw geisiadau a wneir ar ôl yr amser hwn fel ceisiadau newydd a bydd gofyn i chi fynd trwy'r un weithdrefn ar gyfer rhoi trwydded.

Os methwch y prawf, gallwch wneud ceisiadau eraill – ond bydd raid i chi dalu ffi bob tro.

Mae'r ffi'n ffi unigol sy'n cwmpasu eich holl gais a rhennir hyn yn rhannau ar wahân at ddibenion gweinyddol a chyfrifeg. Nid oes modd ad-dalu'r ffi i chi.

CYNGOR A CHYMORTH

Rydym yn barod i roi cyngor am drwyddedu bob amser. Gallwch alw heibio i'r depo ar Ffordd yr Abaty neu ffonio ni ar 01978 729600
neu'r Is-Adran Drwyddedu ar 01978 292049, Adeiladau'r Goron, Wrecsam, LL13 8BG.
Mae staff ar gael rhwng 8.30 am a 5.30 pm ddydd Llun i ddydd Gwener.

Prawf Gwybodaeth

Er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr am drwydded gyrrwr yn adnabod yr ardal y byddant yn gweithio ynddi ac yn gwybod beth all gyrwyr ei wneud neu na allant ei wneud yn unol â'r rheoliadau a'r amodau, gofynnir i ymgeiswyr sefyll a llwyddo mewn prawf gwybodaeth llafar. I helpu ymgeiswyr i baratoi ar gyfer y prawf, gosodwyd cyfres o 100 cwestiwn. Bydd gofyn i chi ateb 30 cwestiwn a chael 25 o'r rhain yn gywir. Bydd pob ymgeisydd yn cael rhestr o'r 100 cwestiwn y disgwylir iddynt eu dysgu ac ymchwilio i atebion y rhai nad ydynt yn eu gwybod. Byddant yn cael yr amodau y mae rhai o'r cwestiynau'n seiliedig arnynt hefyd. Bydd gweddill y cwestiynau'n cwmpasu lleoliad ysbytai, gwestai a thafarndai, theori gyrru a'r daith fyrraf rhwng dau bwynt. Bydd cwestiynau amlddewis am ardal Wrecsam, gyrwyr ac amodau gyrru hefyd. Gallwch gael yr atebion i'r holl gwestiynau o fap stryd A-Z, y llyfr ffôn a'r ddogfen amodau i yrwyr a cherbydau hurio preifat.

Rhestr o'r 100 cwestiwn y gofynnir i bob ymgeisydd ateb o leiaf 25 allan o 30 yn gywir

Mae'r rhestr yn cynnwys cwestiynau am amodau gyrwyr hurio preifat, amodau cerbydau hurio preifat, côd y ffordd fawr a chwestiynau am leoliad ardaloedd yn Wrecsam a'r cylch. Bydd dau gwestiwn am fathemateg syml hefyd.

1. Wrth fynd â theithiwr i ben taith, a ddylai gyrrwr gymryd y daith fwyaf hir neu fyr?
2. Ar ba stryd mae Adeiladau'r Goron?
A) Ffordd Rhiwabon B) Stryt y Rhaglaw C) Stryt Fawr D) Stryt Caer
3. Sawl teithiwr sy'n cael bod ar sedd flaen cerbyd hurio preifat a drwyddedir ar gyfer 5 unigolyn, ger y gyrrwr?
4. Rydych yn berchen ar gerbyd hurio preifat, yn ôl amodau'r cerbyd pwy sy'n gallu gyrru'r cerbyd hwnnw?
5. Ble mae Ystad Ddiwydiannol Whitegate?
6. Mae'r amodau ar gyfer gyrwyr hurio preifat yn rhestru pedwar gweithgaredd na ddylai gyrrwr eu gwneud wrth weithio fel gyrrwr, enwch dri.
7. Ble mae tafarn y Cunliffe?
A) Ffordd Jeffreys B) Ffordd Holt C) Ffordd Hightown D) Ffordd Bradle
8. Pa eitem swyddogol y mae'n rhaid i chi ei gwisgo tra'n gweithio fel gyrrwr hurio preifat?
9. Ble mae'r Clwb Coffa Rhyfel?
10. Fel gyrrwr, oes raid i chi roi derbynneb am y daith?
11. Ble mae tafarn y Greyhound?
12. O ba oedran allwch fod yn deithiwr yn y sedd flaen?
13. Ble mae Acton Park Hotel?
A) Ffordd Rhosddu B) Ffordd Caer C) Ffordd yr Wyddgrug D) Ffordd Newydd

14. Beth ddylai gyrrwr ei wneud os daw o hyd i eiddo nad yw'n berchen arno yn ei gar?
15. Ble mae Ysbyty Preifat Iâl?
A) Ffordd y Parciau B) Lôn Crispin C) Ffordd Croesnewydd D) Ffordd Maesgwyn
16. Ble mae Canolfan Tennis Gogledd Cymru?
17. Os euogfarnwyd neu os rhybuddiwyd gyrrwr am drosedd, beth ddylai ei wneud a phryd ddylai wneud hyn?
18. Ble mae Llys Ynadon Wrecsam?
A) Stryt y Farchnad B) Sgwâr y Frenhines C) Ffordd Rhosddu D) Bodhyfryd
19 Beth mae'r amodau gyrwyr yn ei ddweud am fagiau teithwyr?
20 Ble yng Ngresffordd mae tafarn y Plough?
21 Beth ddylai gyrrwr ei wneud yn syth ar ôl neu cynted â phosibl ar ôl gorffen hurio cerbyd a pham?
22 Yn ôl yr amodau gyrwyr, pa dri peth ddylai gyrrwr BEIDIO â'u gwneud heb ganiatâd yr huriwr?
23 Ble mae Mecca Bingo?
A) Stryt yr Allt B) Stryt y Bont C) Ffordd y Cilgant D) Penybryn
24 Ar ba ffordd mae Cae Pêl-droed Wrecsam?
25 Beth ddylai gyrrwr ei wneud pan fydd teithwyr yn mynd i ac o'r cerbyd?
26 Ble mae Gorsaf Gyffredinol Wrecsam?
27 Beth yw nifer uchaf y teithwyr y gall cerbyd hurio preifat eu cario, gan gynnwys y gyrrwr?
28 Beth yw'r daith fyrraf o Tesco i dafarn y Walnut Tree?
29 Mae un o'r amodau gyrrwr yn perthyn i yrrwr cerbyd hurio preifat yn bod yn bresennol ar amser cyfleus ac mewn lleoliad cyfleus. Beth ddylai wneud?
30 Ble mae Clwb Golff Wrecsam?
31 Ar ba ffordd y mae Gorsaf Fysiau Wrecsam?
32 Amodau gyrrwr – o ran mesuryddion teithiau, beth mae raid i yrrwr gydymffurfio ag ef?
33 Ym mha ran o Wrecsam mae Kronospan?
34 Os newidiwch eich cyfeiriad, pryd ddylech hysbysu'r Cyngor?
35 Ar ba ffordd mae tafarn yr Oak Tree?
36 Wrth yrru, beth na ddylech ei wneud pan fydd llinellau gwyn solet yng nghanol y ffordd?
37 Beth yw'r daith fyrraf o Goleg Newi i Lyfrgell Wrecsam?
38 Amodau gyrrwr – mewn perthynas â radios a chyfarpar cynhyrchu sain mewn cerbydau hurio preifat, beth na ddylech ei wneud?
39 Beth mae'r amodau cerbyd yn ei ddweud am ddefnyddio trelar?
40 Beth mae'r amodau gyrrwr yn ei ddweud am arddangos cerdyn adnabod?
41 Ym mha barc manwerthu mae 'Argos'?
42 Yn ôl yr amodau gyrwyr, caniatâd pwy sydd ei angen arnoch cyn y gallwch gario rhywun arall mewn cerbyd hurio preifat?
43 Ble mae'r ganolfan chwaraeon ym Mharc Caia?
44 Ble mae Ysbyty Maelor Wrecsam?
45 Beth yw'r daith fyrraf o glwb nos Liquid i Orsaf Heddlu Wrecsam?
46 Ble mae sinema'r Odeon?

47 Ble mae Canolfan Golff Clays?
48 Yn ôl yr amodau cerbyd, beth ddylai gyrrwr ei sicrhau o ran gosod platiau adnabod cerbyd hurio preifat?
49 Yn ôl yr amodau gyrwyr, esboniwch yr hyn y mae'n rhaid i chi ei esbonio am daliadau teithio?
50 Ble mae Amgueddfa Wrecsam?
51. A ganiateir i berchennog neu yrrwr cerbyd hurio preifat gario unrhyw anifail y mae'n berchen arno yn y cerbyd?
52. Mae'r amodau trwyddedau cerbyd yn perthyn i nifer y teithwyr y gellir eu cario mewn car trwyddedig, beth yw'r nifer hwn?
53. Mae'r amodau'n sôn am ddau beth o ran difrod i geir hurio, beth yw'r rhain?
54. Mae'r amodau'n sôn am ddau beth am gludo bagiau teithwyr, beth ydynt?
55. Sawl drws ddylai car hurio eu carl ar gyfer teithwyr yn unig?
56. Mae'r amodau cerbyd yn datgan dau beth am gyflwr y cerbyd, beth ydynt?
57. Ar ba ffordd mae tafarn y Turf?
58. Ble yn Wrecsam fyddech yn dod o hyd i gae ras i geffylau?
59. Mae'r amodau cerbyd yn sôn am ddwy eitem y mae'n rhaid i berchennog y cerbyd eu darparu, beth ydynt?
60. A all cerbyd hurio preifat arddangos y geiriau 'ar gael i'w hurio'?
61. Beth mae'r amodau'n ei ddweud am dablau taliadau?
62. A yw'r amodau'n caniatáu i gerbyd hurio preifat gael ei drosglwyddo i rywun arall yn ystod cyfnod y drwydded?
63. Ble dylid gosod y mesurydd taliadau yn y car hurio a pham?
64. Beth yw'r ddau beth y mae'n rhaid i berchennog car hurio eu gwneud o ran seddi teithwyr?
65. Mae'r amodau'n disgrifio cyflwr car hurio, beth yn union maent yn ei ddweud?
66. A ellir gosod blwch to ar gerbyd hurio preifat?
67. Ar ba ffordd y mae'r brif fynwent yn Wrecsam?
68. Beth mae'r amodau cerbyd yn ei ddweud am selio mesuryddion?
69. Beth mae'r amodau'n ei ddweud am ddiffoddwyr tân?
70. Beth mae'r amodau'n ei ddweud am gyfarpar radio?
71. Ar ba ffordd y mae Gwesty'r Hand yn Wrecsam?
72. A yw arwydd traffig cylch gwyn ag ymylon coch yn 'wybodaeth' neu'n 'waharddiad'?
73. Rydych yn gyrru tuag at groesfan sebra lle mae cerddwyr yn aros i groesi, beth ddylech ei wneud?
74. Disgrifiwch y daith fyrraf rhwng y Byd Dŵr a'r Parciau.
75. Pryd ddylech beidio â defnyddio eich corn?
76. Pryd ddylech ddefnyddio eich goleuadau rhybuddio?
77. Ble mae Plas Erddig?
78. Os yw darpar gwsmer yn codi llaw arnoch yn eich cerbyd yn y stryd ac yn gofyn i chi fynd ag ef i glwb, beth ddylech ei wneud?
79. Ar ba ystad ddiwydiannol mae Ffordd yr Abaty, canolfan brofi'r Cyngor?
80. Mae llinellau igam-ogam cyn croesfan sebra'n eich atal rhag gwneud dau beth, beth ydynt?
81. Ar ba ffordd y mae tafarn a gwesty'r Beeches?

82. Beth yw'r cyfyngiad cyflymdra cenedlaethol ar draffyrdd a ffyrdd deuol ar gyfer ceir a beiciau modur?
83. Pryd caniateir i chi stopio ar lain galed y draffordd?
84. Ble mae'r Ramada?
85. Ble mae B & Q?
86. A ellir cario plentyn 9 oed yn sedd flaen cerbyd hurio?
87. Gellir trwyddedu cerbyd hurio preifat i gario uchafswm nifer o deithwyr, ac eithrio'r gyrrwr. Sawl un?
A) 4. B) 6. C) 8. D) 10.
88. Os ydych yn dilyn cerbyd araf ar hyd stryd UN FFORDD, ar ba ochr fyddech yn mynd heibio iddo?
89. Ble mae Sainsbury's yn Wrecsam?
90. Ble mae tafarn y Red Dragon?
91. Beth yw enw'r brif ffordd sy'n mynd â chi o Wrecsam i Goedpoeth?
92. A allwch barcio cerbyd hurio preifat ar safle cerbydau hacnai?
93. Ble mae Clwb Rygbi Wrecsam?
94. A ddylech fynd heibio i gerbyd araf wrth fynd at bont groca?
95 Ble mae'r Wynnstay yn Wrecsam?
96 Ble mae Coleg Iâl?
97 Pwy sydd â hawl tramwy ar gylchfan?
98 Ble mae Asda?
99 Pa eitemau sydd rhaid i yrrwr cerbyd hurio preifat eu cario yn ei gerbyd yn achos argyfwng neu anaf?
100 Sut ydych yn cyrraedd Rhos o Gae Pêl-droed Wrecsam?

MEINI PRAWF I'W DEFNYDDIO WRTH BENDERFYNU AR DRWYDDED GYRRWR CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Mae Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn darparu nad yw 'euogfarnau sydd wedi dod i ben' yn cael eu hystyried yn gyffredinol gan fod unigolyn a ailsefydlwyd yn cael ei drin fel unigolyn â chymeriad da cyn yr euogfarn. Fodd bynnag, mae Gorchymyn Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiad) 2002 yn eithrio gyrwyr hurio preifat a hacnai o'r ddeddf ac ni ystyrir euogfarnau fel rhai sydd wedi dod i ben. Golyga hyn fod rhaid cofnodi pob euogfarn ar y ffurflen gais; bydd gan swyddogion ac aelodau hawl i ofyn cwestiynau am euogfarnau sydd wedi dod i ben.

Mae'r Awdurdod yn gofyn i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wirio ceisiadau. Mae hyn yn rhoi manylion i'r Awdurdod o unrhyw euogfarnau byw neu ddarfodedig, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae prif swyddog yr heddlu'n credu ei bod yn berthnasol. Gallai'r wybodaeth hon fod yn gwyn neu'n ddigwyddiad sy'n cynnwys yr ymeisydd dan sylw; nid oes raid iddi fod yn erlyniad neu rybudd.

Polisi'r Cyngor yw bod ymgeiswyr ag euogfarnau byw'n gorfod cyflwyno eu heuogfarnau darfodedig ger bron pwyllgor (ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall). Byddai ymgeiswyr ag euogfarnau darfodedig yn adrodd ger bron y pwyllgor dim ond os yw'r euogfarnau'n berthnasol i ddiogelwch neu ddiogeledd cyhoeddus.

Bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a bydd yn cael ei hystyried dim ond mewn perthynas â'ch cais. Dylech wybod bod gan y Cyngor y pŵer i wirio am fodolaeth a chynnwys unrhyw gofnod troseddol yn enw'r ymgeisydd. Cedwir gwybodaeth a dderbynnir gan yr heddlu neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn gyfrinachol tra bod y broses drwyddedu'n mynd yn ei blaen ac ni fydd yn cael ei chadw'n hwy na'r angen. Mae datganiad polisi ar storio, trin, defnyddio, cadw a chael gwared ar wybodaeth ar gael ar gais.

Ni fydd datgelu cofnod troseddol neu wybodaeth arall yn eich atal rhag cael trwydded bob amser oni bai bod y Cyngor yn teimlo bod yr euogfarn yn eich gwneud yn anaddas. Wrth benderfynu ar hyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried natur y trosedd, pryd ddigwyddodd a beth oedd eich oedran pan ddigwyddodd ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Fe'ch cynghorir i ystyried y canllawiau canlynol mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau.

Mae gan unrhyw ymgeisydd sy'n methu â chael trwydded ar y sail nad yw'n unigolion priodol ac addas yr hawl i apelio yn y Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod ar ôl derbyn y penderfyniad.

CANLLAWIAU A DDEFNYDDIR GAN Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL

Bydd ceisiadau'n mynd i'r Pwyllgor os oes yna euogfarnau diweddar h.y. euogfarn o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Rhestr y canllawiau sy'n perthyn i berthnasedd euogfarnau i'w defnyddio gan y Pwyllgor isod. Maent yn cyfeirio at yrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat ond gellir defnyddio'r meini prawf ar gyfer ceisiadau gweithredwyr hurio preifat hefyd gan eu bod yn gyfrifol am ddelio ym maes diogelwch a diogeledd cyhoeddus.

1. Pendefynir ar bob achos yn unigol.
2. Ni fydd unigolyn ag euogfarn gyfredol am drosedd ddifrifol yn cael ei rwystro rhag cael trwydded ond disgwylir iddo fod yn rhydd o euogfarnau am 3 i 5 mlynedd, yn unol â'r amgylchiadau, cyn gellir ystyried cais. Gall peth doethineb fod yn briodol os mai un drosedd sydd ac os oes amgylchiadau lliniarol. Fodd bynnag, yr ystyriaeth bwysicaf yw diogelu'r cyhoedd.
3. Mae'r enghreifftiau canlynol yn ganllaw cyffredinol ar y camau i'w cymryd lle cyfaddefir euogfarnau.

(a) Mân-Droseddau Traffig

Ni ddylai euogfarnau am fân-droseddau gyrru e.e. rhwystro, aros ar stryd gyfyngedig, gyrru'n rhy gyflym atal unrhyw un rhag gwneud cais. Os yw'r gyrrwr yn cael ei wahardd rhag gyrru, bydd trwydded cerbyd hacnai neu hurio preifat yn cael ei rhoi dim ond ar ôl i'r cyfnod gwahardd ddod i ben ond dylid cyhoeddi rhybudd o ran ymddygiad y gyrrwr yn y dyfodol.

(b) Troseddau Traffig Mawr

Dylai un euogfarn am yrru'n esgeulus neu'n ddiofal a disylw ayb fynnu rhybudd o ran gyrru yn y dyfodol a chyngor ar y safon a ddisgwylir o yrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat. Dylai mwy nag un euogfarn o'r math hwn o drosedd yn y 2 flynedd ddiwethaf arwain at wrthod trwydded ac ni ddylid

(c) Meddwdod

(i) Tra'n gyrru

Dylid ystyried euogfarnau o yrru neu fod mewn rheolaeth o gerbyd tra dan ddylanwad diod feddwol o ddifrif. Ni ddylai un digwyddiad atal ymgeisydd ond dylid rhoi rhybudd clir o ran ymddygiad y gyrrwr yn y dyfodol. Dylai mwy nag un euogfarn fod yn ddigon i amau ffitrwydd ymgeisydd i ddal trwydded.

Dylai o leiaf 3 blynedd fynd heibio (ar ôl adfer y drwydded yrru) cyn ystyried gwneud cais arall.

Os oes awgrym bod yr ymgeisydd yn ddibynnol ar alcohol, dylid trefnu archwiliad meddygol cyn ystyried y cais. Os gwelir bod yr ymgeisydd yn ddibynnol ar alcohol, dylai cyfnod o 5 mlynedd fynd heibio ar ôl cael triniaeth cyn ystyried cais arall am drwydded.

(ii) Ddim yn y cerbyd

Nid oes raid i un euogfarn am feddwdod rwystro ymgeisydd rhag cael trwydded. Fodd bynnag, gallai nifer o euogfarnau olygu bod yna broblem feddygol sy'n mynnu archwiliad hanfodol (gweler (i) uchod). Mewn rhai achosion, bydd rhybudd yn ddigon.

d) Cyffuriau

Dylid gofyn i ymgeisydd ag euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau ddangos cyfnod o dair blynedd o leiaf yn rhydd o euogfarnau cyn ystyried cais neu 5 mlynedd ar ôl triniaeth os oedd yn gaeth i gyffuriau.

(e) Anweddusrwydd

Gan fod gyrwyr cerbyd hacnai a hurio preifat yn cario pobl ar eu pen eu hunain, dylid gwrthod unrhyw ymgeiswyr ag euogfarnau am ddinoethiad anweddus, ymosodiad anweddus, llithio i bwrpas anfoesol neu unrhyw un o'r troseddau rhywiol mwy difrifol hyd nes iddynt fod yn rhydd o'r troseddau hyn am gyfnod sylweddol (o leiaf 3 – 5 mlynedd). Dylai mwy nag un euogfarn olygu na ddylid eu

hystyried am 5 mlynedd o leiaf. Yn y naill achos, os rhoddir trwydded i'r ymgeisydd, dylid rhoi rhybudd clir o ran ymddygiad yn y dyfodol.

(f) Trais - canllawiau

Gan fod gyrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat yn cynnal cyswllt agos â'r cyhoedd, dylid bod yn gadarn gydag ymgeiswyr sydd ag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, anafu neu ymosodiad. Dylid dangos o leiaf 3 blynedd heb euogfarnau cyn ystyried cais ond dylid rhoi rhybudd clir hyd yn oed wedi hyn.

(g) Anonestrwydd

Disgwylir i yrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat fod yn ddibynadwy. Mae'r arfer o gludo eiddo heb gwmni'n dangos y ffydd sydd gan bobl fusnes mewn gyrwyr. Felly, mae'n gymharol hawdd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd trwy hawlio mwy na'r tâl cyfreithiol ayb. Gallai ymwelwyr o dramor ddrysu oherwydd yr arian gwahanol. Am y rhesymau hyn, dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i unrhyw euogfarn am anonestrwydd. Yn gyffredinol, dylid gofyn am gyfnod o 3 – 5 mlynedd heb euogfarnau cyn ystyried cais.

Cyfreithiau ac Amodau sy'n Perthyn i Yrwyr

Rhaid i holl yrwyr cerbydau hacnai neu hurio preifat gael eu trwyddedu gan y Cyngor a dylent fod wedi dal trwydded yrru lawn ers mwy na 12 mis cyn ymgeisio.

a) Gyrwyr Cerbydau Hacnai
Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
Is-ddeddfau

b) Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
Amodau trwydded

Nid oes terfyn ar nifer y trwyddedau a gyhoeddir;
Cyhoeddir trwydded os yw'r ymgeisydd yn bodloni holl ofynion y Cyngor.

Bathodynnau Gyrwyr

Pan gyhoeddir trwydded, rhoddir bathodyn i'r gyrrwr a bydd disgwyl iddo wisgo hwn bob amser tra'n gyrru cerbyd hurio preifat mewn man lle mae'n hawdd ei weld. Bydd gyrwyr nad ydynt yn gwisgo bathodyn yn euog o drosedd.

Cyhoeddir trwydded bapur hefyd sy'n rhoi manylion o'r amodau y disgwylir i holl ddeiliaid trwydded gadw atynt.

Diddymu a Gwahardd

Mae gan y Cyngor y pŵer i ddiddymu neu wrthod adnewyddu trwydded os euogfarnwyd y gyrrwr o drosedd dan Ddeddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847 neu Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu am unrhyw achos rhesymol arall.

Cymell Hurio

Cynghorir ymgeiswyr am drwydded gyrwr hurio preifat ei fod yn drosedd i gymell hurio mewn cerbyd hurio preifat. Rhaid neilltuo'r cerbyd ymlaen llaw.

Mesuryddion Tacsi

Cynghorir ymgeiswyr ei fod yn drosedd i darfu ar unrhyw sêl ar fesurydd neu newid y mesurydd gyda'r bwriad o gamarwain pobl.

RHWYSTRO SWYDDOGION AWDURDODEDIG A HEDDWEISION

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae'n drosedd i unrhyw un rwystro swyddog awdurdodedig neu heddwas sy'n gweithredu dan y ddeddf a methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd ganddynt neu fethu â rhoi cymorth neu wybodaeth resymol i swyddog awdurdodedig neu heddwas.

ATODIAD
AMODAU'R DRWYDDED

1 Bydd y gyrrwr yn :
gwisgo bathodyn adnabod gyrrwr hurio preifat a gyhoeddir yn unol ag Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 mewn man amlwg a gweladwy bob amser.
b)arddangos cerdyn adnabod yn y cerbyd a ddarperir gan yr awdurdod lleol tu mewn i'r ffenestr flaen sy'n arddangos hunanieth y gyrrwr tu mewn i'r cerbyd.
c) sicrhau bod ganddo bolisi yswiriant sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Rheoli Traffig y Ffordd 1972 a bod yr yswiriant yn ei alluogi i yrru'r cerbyd hurio preifat.
d) ymddwyn mewn ffordd gwrtais a threfnus bob amser a pheidio â defnyddio iaith anweddus.
e) lân a pharchus o ran gwisg ac ymddygiad wrth gario teithwyr bob amser.
f) cynorthwyo teithwyr gyda'u bagiau.
g) peidio ag ysmygu, yfed na bwyta tra'n cario teithwyr yn y cerbyd.
h)chwarae'r radio neu unrhyw gyfarpar sain neu unrhyw offeryn heblaw am ar gyfer anfon neu dderbyn negeseuon gan gwmni'r cerbyd tra'n cario teithwyr heb eu caniatâd.
i) sicrhau nad yw'r radio neu unrhyw gyfarpar sain yn y cerbyd yn achosi niwsans nac yn tarfu ar unrhyw un tu mewn neu tu allan i'r cerbyd.
j) peidio â defnyddio ffôn symudol tra'n gyrru'r cerbyd.

2 Ni fydd y gyrrwr yn:-
a) cario nac yn caniatáu nifer uwch o deithwyr nag a bennir yn y drwydded hurio preifat a gyhoeddwyd ar gyfer y cerbyd dan sylw.
b) cario nac yn caniatáu unigolyn arall i deithio yn y cerbyd heb ganiatâd y sawl a huriodd y cerbyd.

3 Ar ôl gorffen hurio'r cerbyd, bydd y gyrrwr yn gwirio'r cerbyd am unrhyw eiddo a adawyd ar ddamwain. Bydd unrhyw eiddo'n sy'n cael ei ddarganfod neu ei roi i'r gyrrwr yn cael ei gyflwyno i orsaf heddlu yn yr ardal o fewn 24 awr o ddod o hyd i'r eiddo (os nad yw'n cael ei hawlio gan y perchennog) a bydd y gyrrwr yn cael derbynneb am yr eiddo.

4 Bydd y gyrrwr yn darparu derbynneb ysgrifenedig o'r tâl a dalwyd ar gais y sawl sy'n hurio'r cerbyd.

5a) Yn unol â thrwydded gyrrwr hurio preifat, ni fydd y gyrrwr yn cario unrhyw anifail y mae ef neu berchennog neu weithredwr y cwmni'n berchen arno.
b) Gellir cario unrhyw anifail y mae'r sawl sy'n hurio'r cerbyd yn berchen arno neu'n gofalu amdano yn ôl doethineb y gyrrwr os yw'r anifail yn cael ei gario yng nghefn y cerbyd ac yn dal ei ddal mewn ffordd na fydd yn tarfu ar yrru'r cerbyd.
c) Ni fydd y gyrrwr yn gwrthod cludo ci tywys, clywed neu unrhyw gi cymorth arall heb hysbysiad eithriad dilys a gyhoeddir dan adran 37 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

6 Ar ôl cael contract i hurio cerbyd hurio preifat, bydd y gyrrwr yn troi i fyny'n brydlon i gasglu'r huriwr oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal rhag gwneud hynny gan amgylchiadau tu hwnt i'w reolaeth.

7 Bydd y gyrrwr yn cario copi o'r amodau hyn yn y cerbyd hurio preifat bob amser a bydd ar gael i'r huriwr neu unrhyw deithiwr neu swyddog awdurdodedig neu blismon ar gais.

8 Os caniateir neu os cyflogir y gyrrwr i yrru cerbyd nad yw'n berchen arno, bydd yn gadael ei drwydded gyrrwr hurio preifat gyda'r perchennog cyn dechrau gyrru'r cerbyd hwnnw hyd nes i'r gyrrwr orffen gyrru'r cerbyd hwnnw neu unrhyw gerbyd arall.

9 Os oes gan y cerbyd fesurydd ni fydd y gyrrwr yn canslo nac yn cuddio'r mesurydd hyd nes i'r huriwr gael cyfle rhesymol i'w archwilio a thalu'r ffi ofynnol.

10 Ni fydd y gyrrwr yn:-
a) hawlio tâl sy'n uwch na'r tâl y cytunwyd arno yn flaenorol ar gyfer hurio oni bai bod yr huriwr wedi gofyn am amrywio pen y daith.
b) hawlio tâl sy'n uwch na'r tâl a welir ar y mesurydd os oes gan y cerbyd fesurydd ar gyfer cofnodi taliadau ac na chytunwyd ar unrhyw dâl cyn cychwyn ar y daith.

11 Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig o unrhyw newid cyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod o'r newid hwnnw.

12 Bydd y gyrrwr yn datgelu manylion o unrhyw euogfarnau (gan gynnwys rhybuddion, cosbau sefydlog a hysbysiadau cosbau sefydlog mewn perthynas â thorcyfraith gyrru) yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd o fewn saith diwrnod.

13 Pan ddaw'r drwyded i ben neu os diddymir hi, bydd y gyrrwr yn dychwelyd y bathodyn a roddwyd iddo i'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

14 Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol o unrhyw anabledd neu nam a allai effeithio ar ei allu i yrru ac ni fydd yn gyrru cerbyd os bydd yn cael ei effeithio gan yr anabledd neu'r nam.

15 Ni fydd y gyrrwr yn canu ei gorn tu allan i unrhyw eiddo yr anfonwyd ef i gasglu teithiwr beth bynnag fo amser y dydd.

16 Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogleu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig o unrhyw newid cwmni yn ystod cyfnod y drwydded o fewn saith diwrnod o'r newid hwnnw.

17 Bydd y gyrrwr yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 mewn perthynas â gyrwyr, cerbydau a chwmnïau hurio preifat ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

MAE MODD YSTYRIED TORRI'R AMODAU HYN YN SAIL AR GYFER DIDDYMU NEU WRTHOD ADNEWYDDU'R DRWYDDED.

Hawl i Apelio

Os teimlwch eich bod wedi cael cam oherwydd amodau'r drwydded hon, mae gennych hawl i apelio i lys ynadon o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.

GOFYNION CERBYDAU HURIO PREIFAT

1 a) Rhaid i'r cerbyd gael pedair olwyn a lleiafswm o bedwar drws. Rhaid i'r drysau gynnwys dau ddrws ar ochr agosaf ac ochr agored y cerbyd ac nid yw'n cynnwys drysau car cefn Codi / cist. Nid yw'r gofyniad am leiafswm o bedwar drws yn berthnasol i fws mini a adeiladwyd i bwrpas gydag eil.

b) Rhaid i'r cerbyd gario olwyn sbâr ac offer a chyfarpar digonol i alluogi gosod yr olwyn sbâr petai ddifrod neu bunjar. Lle nad yw'r gwneuthurwr yn darparu olwyn sbâr rhaid darparu Teiar Rhedeg Fflat / Erosol Ewyn yn y cerbyd.

2 Rhaid i faint peiriant y cerbyd fod yn 1400cc o leiaf.

3 Rhaid cyflwyno cerbydau i'w harchwilio mewn cyflwr glân ac addas i'f ffordd a dylai corff y cerbyd fod yn rhydd o unrhyw rwd.

4 Ni fydd cerbydau'n cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad os ydynt wedi eu difrodi mewn damwain a rhaid hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd o unrhyw ddifrod o fewn 72 awr o'r ddifrod yn digwydd.

5 Rhaid i'r cerbyd yrru ar y dde **ac eithrio limwsinau estynedig.**

6 Ni ddylai'r cerbyd fod o fath, cynllun nac ymddangosiad a fyddai'n peri i rywun gredu bod y cerbyd yn gerbyd hacnai. Ni fydd cerbydau Austin FX4 (tacsis Llundain), Peugeot Expert / Tepee / Euro Taxi, Fiat Scudo, Citroen Dispatch etc yn dderbyniol.

7 Rhaid i'r cerbyd allu cario o leiaf bedwar o deithwyr yn ychwanegol at y gyrrwr a dim mwy nag wyth o deithwyr. Rhaid i'r seddi ôl fod fel y'u gwnethpwyd a bod â gwregysau diogelwch priodol ar gyfer pob unigolyn. Isafswm lled derbyniol rhan o sedd fesul unigolyn yw 410 milimetr ar bwynt lletaf y sedd all gynnwys adrannau seddog anghyfartal. *'Limousines'* i gael lleiafswm o chwech eisteddleoedd ac uchafswm o wyth.

8 Rhaid i'r cerbyd a'i holl ffitiadau a chyfarpar fod yn effeithiol, diogel a glân a dylent gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai a geir yn y Rheoliadau Cerbydau Modur (Cynhyrchiad a Defnydd).

9 Rhaid i seddi'r cerbyd fod wedi eu clustogi'n briodol a bod yn rhydd o ddifrod.

10 Rhaid i lawr y cerbyd gael carped priodol neu orchudd priodol arall.

11 a) Rhaid cael digon o le yn y cerbyd i gario bagiau teithwyr a rhaid i'r lle hwn fod yn lân ac yn ddwrglos. Ni ellir gosod rac ar y to.

b) Gellir goso blwch ar y to os:

i) yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Traffig y Ffordd (Cynhyrchiad a Defnydd) ac os yw'n briodol ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddir.
ii) yw'n gynhwysydd caeëdig (nid yn rac to agored â gorchudd rhydd).
iii) yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol megis clybiau golff, bagiau mawr ayb ac nid ar gyfer cario nwyddau nac anifeiliaid byw.
iv) yw'r huriwr gyda'r cerbyd ar adeg defnyddio'r blwch to.
v) nad yw unrhyw ran o'r blwch na'i ffitiadau'n parhau ar y cerbyd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol.
vi) nad oes hysbysebion, geiriau na rhifau ar y blwch ei hun.

c) Na ddylai ol-gerbydion gael eu defnyddio gan unrhyw gerbyd hur preifat.

12 a) Rhaid i'r cerbyd gario diffoddwr tân powdr sych effeithiol sy'n pwyso o leiaf 1 cilogram. Bydd y diffoddwr wedi ei osod mewn man nad yw'n tarfu ar reolaeth y cerbyd ac lle na all celod o'r cyhoedd darfu arno.

b) Rhaid i unigolyn medrus drin y diffoddwr tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

13 Rhaid i'r cerbyd gario blwch cymorth cyntaf fel a ganlyn:

Bydd blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:

i) chwe rhwymiad gludiog gwrthheintiol a lapiwyd yn unigol (plasteri)

ii) un rhwymyn mawr gwrthheintiol heb feddyginiaeth

iii) Dau rwymyn trionglog

iv) dau bin cau

v) clytiau gwlyb a lapiwyd yn unigol

yn cael ei gario yn y cerbyd bob amser wedi ei osod yn ofalus yng nghist y cerbyd i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd gofyn i yrwyr hurio preifat roi triniaeth cymorth cyntaf.

14 Rhaid i unrhyw fesurydd a roddir yn y cerbyd fod mewn man nad yw'n weladwy tu allan i'r cerbyd ond sy'n amlwg iawn i'r teithwyr tu mewn.

15 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd, bydd gofyn gosod y plât trwydded a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddiogel tu allan i flaen a chefn y cerbyd mewn man amlwg ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd i swyddog awdurdodedig neu gwnstabl eu tynnu.

16 Ni fydd arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, emblemau na dyfeisiau'n cael eu harddangos ar, tu mewn neu o'r cerbyd ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol dan ddarpariaeth statudol, is-ddeddfau neu a ganiateir neu a ofynnir gan unrhyw amod o drwydded hurio preifat a gyhoeddir gan y Cyngor mewn perthynas â'r cerbyd.

17 Gellir arddangos enw a rhif ffôn y gweithredwr ar ochr y cerbyd os yw'r cerbyd yn **fws mini a gynlluniwyd i gario mwy na phedwar teithir ond llai nag wyth teithiwr** mewn llythrennau neu rifau heb fod yn fwy na 6" (150mm) o uchder ond ni ddylai gynnwys y gair "cab" neu "tacsi/taxi". Ni ddylai unrhyw arddangosiad ar y ffenestr darfu ar weladwyedd na pheryglu diogelwch.

18 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Cyngor, rhaid i rif y drwydded a nifer y teithwyr a ganiateir gan y drwydded fod yn glir y tu mewn i'r cerbyd er mwyn i deithwyr fod yn gallu eu gweld bob amser.

19 Rhaid i'r cerbyd feddu ar bolisi yswiriant neu ddiogeledd arall bob amser sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Traffig y Ffyrdd 1972.

20 Rhaid i'r cerbyd feddu ar dystysgrif MOT ddilys (os yw hyn yn briodol) a thrwydded ffordd gyfredol.

21 Bydd gan bob sedd yn y cerbyd wregys ddiogelwch.

22 Rhaid i drawsnewidiadau LPG (Nwy Petroliwm Hylifol) gario Tystysgrifau Trawsnewidiad LPG a ddarparwyd gan beirianydd â chymwysterau addas.

11/2008

22 Amodau ychwanegol ar gyfer limwsinau estynedig:-

a) Rhaid i'r cerbyd lwyddo mewn arolygiad cymeradwyaeth cerbyd sengl o'i gynllun a gwneuthuriad mewn gorsaf brofio'r Arolygiaeth Cerbydau. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif gymeradwyaeth neu'r dystysgrif gydymffurfio i'r Awdurdod hwn ynghyd â dogfen gofrestru'r DVLA (V5) a thystiolaeth o ddyddiad gwneuthuriad y cerbyd.
b) Ni fydd hyd mwyaf yr 'estyniad' yn fwy na 120"/3048mm.
c) Ni fydd teithwyr yn eistedd yn y tu blaen i'r cerbyd.
d) Rhaid i'r cerbyd feddu ar deiars a bennir gan Ford USA h.y. cerbydau a gofrestrwyd cyn 1998 – 235/75R 15 108S (BF Goodrich Extra Load neu gyfwerth). Rhaid i fersiynau o 1998 feddu ar 225/70R 16 107T (atgyfnerthedig).
e) Bydd unrhyw wydr tywyll yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a osodir allan gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredwyr Cerbydau (VOSA). Gall y rhan ar gyfer teithwyr gael gwydr wedi ei dduo. Rhaid i'r holl wydr tywyll neu ddu gael ei osod yn unol â safonau ac ni fydd unrhyw ddiwygiadau o'r safonau hyn yn dderbyniol.
f) Ni chaniateir unrhyw fath o adloniant neu weithgaredd o unrhyw fath heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod hwn.
g) Rhaid i gerbyd a neilltuir yn hollol ar gyfer plant dan 16 oed gario rhiant/gwarcheidwad neu hebryngwr a wiriwyd gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT). Bydd datganiad yn cael ei gwblhau gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n gyfrifol am y daith cyn dechrau'r siwrnai a fydd yn manylu ar yr unigolion sy'n teithio ac enw a manylion cyswllt yr unigolyn a neilltuodd y cerbyd. Rhaid i'r gyrrwr gario copi o'r ffurflen hon.
h) Gellir gofyn i gerbydau prawf blinder metel yn ôl doethineb yr Awdurdod hwn. Y gweithredwr fydd yn talu am gost y prawf hwn.
i) Bydd diodydd meddwol a ddarperir yn y cerbyd dan delerau trwydded briodol sy'n perthyn i werthu neu gyflenwi alcool. Ar gyfer grwpiau o deithwyr dan 18 oed, rhaid defnyddio gwydrau a photeli plastig a rhaid cloi diodydd meddwol neu eu tynnu o'r cerbyd cyn dechrau ar y siwrnai.
j) Bydd yr amodau arferol sy'n ymwneud â thrwyddedu gweithredwyr a gyrwyr yn berthnasol.

CYNGOR CYNGOR WRECSAM
GOFYNION CERBYDAU HACNAI

1. Rhaid i'r cerbyd fod yn gerbyd a adeiladwyd i'w ddefnyddio fel cerbyd hacnai a dylai fod wedi derbyn cymeradwyaeth y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

2. Rhaid i holl gerbydau hacnai'r fwrdeistref sirol fod yn gallu cludo unigolion anabl yn eu cadeiriau olwyn.

3. Ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy na 10 oed (cais newydd/cyntaf).

4. Rhaid cyflwyno cerbydau i'w harchwilio mewn cyflwr glân ac addas ar gyfer y ffordd a dylent fod yn rhydd o unrhyw rwd.

5. Ni ddylid cyflwyno cerbyd i'w harchwilio os oes ganddo ddifrod o ddamwain a rhaid hysbysu'r Cyngor o unrhyw ddifrod tra bod y cerbyd wedi ei drwyddedu.

6. Rhaid i'r cerbyd yrru ar y llaw dde.

7. Y lled derbyniol lleiaf ar gyfer seddi yw 17" fesul unigolyn.

8. Rhaid i'r cerbyd a'i holl ffitiadau a chyfarpar fod mewn cyflwr effeithiol, diogel, glân a thaclus a rhaid iddo gydymffurfio â'r holl ofynion statudol, gan gynnwys y rhai a geir yn y Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladu a Defnyddio).

9. Rhaid i'r seddi yn y cerbyd fod wedi eu clustogi neu wedi eu gorchuddio'n briodol ac yn rhydd o ddifrod.

10. Rhaid cael carped neu orchudd priodol arall ar lawr y cerbyd.

11. Rhaid cael digon o le yn y cerbyd i gario bagiau teithwyr a dylai'r lle hwn fod yn lân ac yn daclus. Ni ddylid gosod rac to ar y cerbyd.

12 i) Rhaid i'r cerbyd fod â diffoddwr tân powdwr sych effeithiol gydag isafswm pwysau o 1 Kg. Rhaid i'r diffoddwr fod wedi cael ei osod yn ddiogel mewn man lle na fydd yn ymyrryd â rheolaeth y cerbyd ac fel na fyddai aelod o'r cyhoedd yn ymyrryd ag o.
ii) Rhaid i'r diffoddwr tân gael gwasanaeth rheolaidd gan unigolyn cymwys er mwyn sicrhau fod y medrydd yn dangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio bob amser.

13 Rhaid i'r cerbyd gario blwch cymorth cyntaf yn cynnwys:

i) chwe dresin gludiog diheintiedig wedi eu lapio'n unigol (plastr)
ii) un dresin mawr diheintiedig anfeddyginiaethol
iii) dau rwymyn trionglog
iv) dau bin cau
v) sychiadau glanhau llaith wedi eu lapio'n unigol

i'w cario yn y cerbyd bob amser ac wedi cael eu gosod yn ddiogel yng nghist y cerbyd ar gyfer defnydd mewn argyfwng. Ni fydd rhwymedigaeth ar y gyrrwr i weinyddu triniaeth cymorth cyntaf.

14. Rhaid i'r cerbyd gario digon o gyfarpar i alluogi rhywun i drwsio neu newid teiars a ddifrodwyd.

15 a) Rhaid i'r mesurydd sy'n cofnodi taliadau a osodwyd yn y cerbyd fod mewn safle anweladwy o du allan y cerbyd ond yn gwbl weladwy ac eglur i deithwyr.

b) Rhaid i glociau tacsi arddangos marciau *"CE"* neu *"M"* a chael darpariaeth i arddangos Sêl Gymeradwyaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

16 Os yw'r Cyngor yn trwyddedu'r cerbyd fel cerbyd hacnai, rhaid gosod y plât trwydded a gyhoeddir gan y Cyngor yn ofalus tu allan i gefn y cerbyd mewn man amlwg ac mewn ffordd sy'n galluogi rhywun i'w dynnu i ffwrdd yn rhwydd.

17. Ni ddylid arddangos arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platiau, arciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, emblemau na dyfeisiau ar y cerbyd ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth statudol, is-ddeddf neu a ganiateir gan unrhyw amod o drwydded cerbyd hacnai a gyhoeddir gan y Cyngor.

18. Os yw'r Cyngor yn trwyddedu'r cerbyd fel cerbyd hacnai, rhaid arddangos rhif y drwydded a nifer y teithwyr y gellir eu cario yn y cerbyd yn glir tu mewn i'r cerbyd mewn man sy'n amlwg bob amser i deithwyr yn y cerbyd.

19. Rhaid cael polisi yswiriant neu ddiogeledd arall mewn perthynas â'r cerbyd sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1972.

20. Rhaid cael tystysgrif MOT briodol ar gyfer y cerbyd a thrwydded ffordd gyfredol.

21. Gall cerbydau hacnai fod o unrhyw liw a gyflenwir gan gynhyrchwyr y cerbyd. Cyfeirir ceisiadau am unrhyw liwiau eraill at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol.

22 Hysbysebu – Bydd gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd, mewn ymgynghoriad a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, awdurdod i gymeradwyo pob hysbyseb sydd i'w arddangos yng Ngherbydau Hacni Wrecsam. (04/2008)